

# ARCHWILIAD o Gynllun Datblygu Lleol Amnewid Merthyr Tudful

[www.merthyr.gov.uk/ldpexamination](http://www.merthyr.gov.uk/ldpexamination)

Arolygydd: PAUL SELBY BEng (Anrh) MSc MRTPI

Swyddog y Rhaglen: TRACEY SMITH

Ffôn: 07753 414078

E: [tracey.smith@merthyr.gov.uk](mailto:tracey.smith@merthyr.gov.uk)

Cyfeiriad: At Sylw Swyddog y Rhaglen CDLI, Uned 5,  
Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful  
CF48 4TQ

John Raine  
Arweinydd Grŵp Polisi Cynllunio  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Ein Cyf: PS/TS

25 Ebrill 2019

Annwyl Mr Raine

## Archwiliad o'r Cynllun Datblygu Lleol: Cwestiynau Cychwynnol i'r Cyngor

Yn dilyn cyflwyno eich Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLI) rwyf wedi cwblhau gwerthusiad cychwynnol o'r CDLI a gyflwynwyd a'i sylfaen dystiolaeth. Er mwyn cynorthwyo'r archwiliad rwyf am gael peth gwybodaeth bellach oddi wrth y Cyngor mewn perthynas â'r materion a amlinellir yn y llythyr hwn.

Mae'r materion hyn yn ymwneud â chadernid y CDLI, ac felly dylai'r Cyngor ymateb mewn modd ystyrlon. Os fydd unrhyw wybodaeth yr wyf yn ei cheisio eisoes wedi ei gosod yn y dogfennau a gyflwynwyd, cyfeiriwch atynt yn hytrach na dyblygu'r wybodaeth.

### Amserlen Isadeiledd

Mae tudalen 48 o'r Llawlyfr CDLI Rhifyn 2 yn dynodi fod tystiolaeth gefnogol berthnasol yn cynnwys gwybodaeth am "gapasiti isadeiledd corfforol a chymdeithasol [a'r] gallu i ariannu isadeiledd a dolenni rhwng S.106 ac ASC". Er mwyn llywio'r broses archwilio cyflwynwch amserlen isadeiledd sengl gan ddynodi:

- Seilwaith angenrheidiol (ar neu oddi ar y safle) – hebddo ni allai datblygiad safleoedd dynodedig oddi fewn i gyfnod y cynllun fynd yn ei flaen fel a ragwelwyd yn y CDLI, ac
- Unrhyw eitemau seilwaith eraill a ddynodwyd neu a ddiogelwyd yn y cynllun.

Am bob eitem seilwaith dylai'r canlynol gael eu dynodi yn yr amserlen:

- Costau dangosol a ffynonellau arian (gan gynnwys tybiaethau realistig ynghylch cyfraniadau oddi wrth Ardoll Seilwaith Cymunedol (ASC) neu oblygiadau cynllunio);
- Partion sy'n gyfrifol am gyflenwi a sut mae'r elfen seilwaith yn berthnasol i'r blaenoriaethau, amserlenni a chynlluniau; a
- Graddfa amser tebygol i'w weithredu (os yw'n wybyddus).

### Systemau Draenio Cynaliadwy (SDCau) hyfywedd a chyflenwi

O 7 Ionawr 2019, daeth SDCau i fod yn orfodol ar gyfer datblygiad o fwy nag 1 annedd neu ble roedd yr ardal adeiladu yn 100m<sup>2</sup>. Rwyf am geisio:

- Gwybodaeth am a yw gofynion SDCau wedi cael eu hystyried mewn asesiadau o hyfywedd/cyflenwi'r cynllun, ac os felly, sut (e.e. drwy dybiaethau dwysedd/capasiti ar gyfer safleoedd dynodedig a/neu fewnbynau i'r dadansoddiad hyfywedd); a
- Sut y byddai polisiâu arfaethedig sy'n ceisio neu'n hyrwyddo SDCau yn gweithio ochr yn ochr â chyfundrefn newydd cymeradwyo SDCau (neu a oes angen i bolisiâu penodol gael eu haddasu i gyfri amdano).

## Effeithiau Cydraddoldebau

Er bod Adroddiad Gwerthuso Cynaliadwyedd (GC) yn asesu effeithiau cydraddoldebau (e.e. drwy nod 4 GC) nid yw'n gosod allan sut y cafodd tri nod Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (DCSC) eu hintegreiddio i'r broses creu cynllun na sut y gallai'r Cynllun effeithio ar bersonau neu grwpiau â nodweddion wedi eu diogelu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mae Paragraff 9.8 yr Adroddiad GC yn dynodi y gallai Asesiad Effaith Cydraddoldebau fod wedi ei gwblhau. Dylai copi o hwn a/neu bapur byr yn arddangos sut y mae'r Cyngor wedi ceisio bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb yn ystod cynhyrchu'r cynllun, gael eu cyflwyno.

## Map Cyfyngiadau a Map Cynigion

Mae Paragraff 6.37 Adroddiad yr Adolygiad a gyflwynwyd yn nodi y byddai Map Cyfyngiadau ar wahân sy'n cyd-fynd â'r CDLI yn ei alluogi i gael ei ddiweddarau yn ôl yr angen. Fodd bynnag, mae paragraff 1.11 y CDLI Amnewid yn dynodi fod y Map Cyfyngiadau a gyflwynwyd yn ffurfio rhan o'r Cynllun. Felly nid oedd yn bosibl cyflawni'r deilliant a geisiwyd yn Adroddiad yr Adolygiad.

Mae Paragraff 2.4.1 Llawlyfr y CDLI yn datgan: "Nid yw Map Cyfyngiadau yn ofyniad statudol ac nid yw'n rhan o'r CDLI." Oherwydd y cyngor hwn a chasgliadau Adroddiad yr Adolygiad, dylai'r Cyngor ystyried a ddylai'r Map Cyfyngiadau gyd-fynd â'r CDLI yn hytrach na ffurfio rhan ohono. Dylech hefyd sicrhau fod dynodiadau polisi'r CDLI yn cael eu cynnwys ar y Map Cynigion a bod darluniadau a ddynodwyd drwy fecanwaith arall neu ddeddfwriaeth yn cael eu gadael ar y Map Cyfyngiadau. Yn eich ymateb, nodwch sut mae'r cyngor yn bwriadu gweithredu mewn perthynas â'r mater hwn.

## Materion eraill

Rwyf hefyd yn ceisio'r canlynol:

- Cadarnhad fod graddau'r parthau llifogydd a ddangoswyd ar Fapiau Cyngor Datblygiad sy'n cyd-fynd â Chyngor Technegol Nodyn 15 'Datblygiad a Pherygl o Lifogydd' heb newid mewn perthynas â safleoedd dynodedig ers Mehefin 2018.
- Y raddfa amser a fwriedir ar gyfer cyflwyno cynllun cysyniad Ardal Adfywio Strategol Hoover ar gyfer ei gynnwys yn y CDLI.
- Copi o 'Gynllun Llesiant Lleol Cwm Taf', y mae'r cynllun yn cyfeirio ato, ond nad ymddengys ei fod wedi ei gyflwyno.

Yn ychwanegol, buaswn yn annog y Cyngor i geisio ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag unrhyw feysydd anghydfod pwysig o ran polisiâu ynni adnewyddadwy a mwynau'r cynllun (fel y'u diwygiwyd gan Newidiadau â Ffocws FC30, FC32 a FCM32). Mae'n bosibl y gallai ymrwymiad pellach sy'n arwain at Ddatganiad Tir Cyffredin byr, leihau neu arbed yr angen am dystiolaeth bellach ar lafar neu'n ysgrifenedig am y materion hyn. Os yw'r Cyngor yn bwriadu cychwyn Datganiad Tir Cyffredin ar y rhain neu ar unrhyw faterion eraill, rhowch wybod i mi yn eich ymatebiad.

Dylech gyflwyno'r wybodaeth bellach hon cyn gynted ag y bydd ar gael, heb fod yn hwyrach na **9 Mai 2019** (noder nad yw'r dyddiad hwn yn gymwys i unrhyw Ddatganiad Tir Cyffredin a ddylai gael ei gyflwyno erbyn 11 Mehefin). Os na fyddwch yn gallu bodloni'r dyddiad targed hwn mewn perthynas ag unrhyw faterion rhowch wybod i mi drwy Swyddog y Rhaglen.

Yn gywir

*Paul Selby*

Arolygydd Cynllunio

Cc Cangen Gynlluniau, Cyfarwyddiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru